



Judith Paget
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
Ysbyty Sant Cadog
Lodge Road
Caerllion
Casnewydd

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

17 Ebrill 2015

Annwyl Ms Paget

Hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol a roddir o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006: Gwybodaeth Ychwanegol Angenrheidiol

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch ichi unwaith eto am roi ymateb prydlon i'm Hanghenion Gweithredu, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chanfyddiadau fy Adolygiad o Gartrefi Gofal.

Erbyn hyn, rwyf wedi cael cyfle i adolygu pob ymateb gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad ac rwyf wedi amgáu fy arfarniad o'ch ymateb chi.

Os codoch chi gwestiynau penodol ynghylch fy Anghenion Gweithredu, mae fy ymateb i'r rhain wedi'i atodi.

Wrth ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Fel y gwelwch o'm dadansoddiad i, rwyf wedi nodi'n glir a yw pob elfen yn eich ymateb yn 'dderbyniol', yn 'rhannol' (angen rhagor o wybodaeth) neu'n 'annerbyniol'. Mae 'derbyniol' yn golygu bod lefel y sicrwydd sydd wedi'i roi imi ar sail yr wybodaeth a roddwyd yn ddigonol; mae 'rhannol' ac 'annerbyniol' yn golygu bod arna i angen rhagor o wybodaeth er mwyn cael fy sicrhau y bydd yr Angen Gweithredu'n cael ei roi ar waith ac y bydd y canlyniad arfaethedig yn cael ei gyflawni.

Pan wyf wedi dod i'r casgliad bod elfen yn eich ymateb naill ai'n rhannol neu'n annerbyniol, mae arna i angen rhagor o wybodaeth neu ymagwedd ddiwygiedig er mwyn cael fy modloni bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'r Angen Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol er mwyn cyflawni'r newid angenrheidiol. Dylech ddarparu'r wybodaeth hon imi erbyn **dydd Gwener 15 Mai 2015**, yn unol â'r amserlenni a bennir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Os nad ydych yn glir ynglŷn ag unrhyw agwedd ar eich ymateb, yn arbennig felly beth fyddai'n rhoi'r lefel sicrwydd rwy'n chwilio amdani, neu os oes gennych gwestiynau manwl am yr Anghenion Gweithredu, mae croeso ichi gysylltu â mi.

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb. Byddaf hefyd yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu, ar sail yr wybodaeth bellach a fydd yn dod i law, y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu. Yn ychwanegol at gyhoeddi'r wybodaeth ar fy ngwefan, byddaf hefyd yn gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol, o ran trosolwg o'r camau sydd ar eu hanner a'r camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'm Cyfarwyddwr Llesiant a Grymuso, Daisy Cole, ar 08442 640670.

Yn gywir



Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cam Gofynnol 1.3

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

1.3 Dylai cymorth ymataliaeth arbenigol fod ar gael i bob cartref gofal er mwyn cefnogi'r arferion gorau wrth ddarparu gofal ymataliaeth, a hynny'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol eglur o ran defnyddio cymhorthion ymataliaeth ac o ran urddas.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn i bob golwg yn cynnig asesiad realistig o sut mae cymorth ym maes ymataliaeth yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys y cryfderau a welir yn y ddarpariaeth, ond hefyd wendidau presennol y gwasanaethau sy'n golygu bod y ddarpariaeth yn gyfyngedig, yn enwedig ymhlith darparwyr llai neu ddarparwyr unigol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi'r camau y mae angen i'w wasanaeth ymataliaeth eu dilyn, er enghraifft cwmpasu gofynion cartrefi nyrsio a chyflwyno'r llwybr ymataliaeth.

Serch hynny, nid oes rhagor o fanylion am sut y bydd y galw'n cael ei ddiwallu, er bod y bwrdd yn cydnabod bod y gwasanaeth a ddarperir gan ddarparwyr llai'n gyfyngedig. Nid oes cyfeiriad at arferion gorau, nac at gyflawni'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer pobl hŷn.

Croesewir y ffaith bod unigolion atebol wedi'u henwi a bod cyfeiriad at amserlen ar gyfer y Cam Gofynnol. Serch hynny, ni roddir dim gwybodaeth am sut y caiff y cynnydd ei fonitro a'i farnu o'i gymharu â'r targed hwn.

Cam Gofynnol 1.6

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau

canlynol:

- pan fydd pobl hŷn yn wynebu camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol neu pan fydd perygl o hynny.
- pan fydd cartref gofal yn cau neu bobl hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fydd angen cymorth ar bobl hŷn i'w helpu i adael yr ysbyty.

Os bydd gallu pobl yn mynd a dod neu os bydd hi'n anodd iddynt gyfathrebu, dylid cynnig eiriolaeth heb gyfarwyddyd.

Pan fydd pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, rhaid i breswylwyr allu cael gafael ar eiriolaeth heb gyfarwyddyd.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn, i bob golwg, yn dangos ymwybyddiaeth o rôl eiriolwyr annibynnol, ac mae'n cyfeirio'n gryno at yr amrywiaeth o wasanaethau a darparwyr sydd yn yr ardal.

Er bod datganiad am y ddarpariaeth bresennol, ni roddir dim gwybodaeth am ei diweddarau nac am y prosesau sicrhau ansawdd sydd ar waith. Nid oes cyfeiriad ychwaith at y canlyniadau a ddymunir ar gyfer pobl hŷn.

Mae'n nodi cam gweithredu i'r Bwrdd Iechyd, sef, sicrhau ymwybyddiaeth barhaus a chyfathrebu â'r staff. Serch hynny, nid oes dim manylion ynglŷn ag ystyr hyn yn ymarferol, er enghraifft, y tu hwnt i'r hyn sy'n cael ei ddarparu eisoes. Cam gweithredu arall a nodir ar gyfer y Bwrdd Iechyd yw 'cefnogi'r ariannu'. Ond, nid yw'n glir a yw hyn yn golygu cynnal y lefelau ariannu presennol ynteu eu cynyddu.

Croesewir y ffaith fod unigolion atebol wedi'u henwi a bod cyfeiriad at amserlen ar gyfer y Cam Gofynnol. Serch hynny, ni roddir dim gwybodaeth am sut y caiff y cynnydd ei fonitro a'i farnu o'i gymharu â'r targed hwn.

Cam Gofynnol 2.2

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

2.2 Mae pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wasanaethau arbenigol a, lle bydd hynny'n briodol, ar ofal gan bobl o sawl gwahanol ddisgyblaeth, a

hwnnw wedi'i gynllunio i'w helpu i wella ar ôl cyfnod o afiechyd.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn, i bob golwg, yn dangos ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o ofal amlddisgyblaeth a gwasanaethau arbenigol sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd. Mae'n cydnabod gwendidau presennol ei ddarpariaeth ac mae'n creu cysylltiad rhwng y rhain ac adnoddau.

Mae'r ymateb yn nodi cam clir i'r Bwrdd Iechyd ei ddilyn i ymgymryd â gwaith i ymateb i'r galw a'r capasiti. Serch hynny, gallai'r ymateb ymrwymo rhagor a dangos parodrwydd mwy clir i ddatblygu gwasanaethau newydd a hynny'n rhagweithiol - er enghraifft ymgynghori'n agored er mwyn sicrhau'r canlyniadau a ddymunir i bobl hŷn.

Gallai'r Bwrdd Iechyd fod wedi dangos ei gysylltiadau ag Awdurdodau Lleol yn fwy clir wrth ymateb i'r Gofyniad hwn.

Croesewir y ffaith bod unigolion atebol wedi'u rhestru a bod cyfeiriad at amserlen ar gyfer y Cam Gofynnol. Serch hynny, ni roddir dim gwybodaeth am sut y caiff y cynnydd ei fonitro a'i farnu o'i gymharu â'r targed hwn.

Cam Gofynnol 3.4

Casgliad Cychwynnol - Annerbyniol

3.4 Datblygu cefnogaeth mewngymorth amlddisgyblaeth ar gyfer iechyd a lles meddyliol pobl hŷn mewn cartrefi gofal, a sicrhau bod y cymorth hwnnw ar gael, gan gynnwys:

- Asesu iechyd a lles meddyliol pobl hŷn fel rhan o ddatblygu eu cynllun gofal a chymorth a chynllunio'u gofal parhaus.
- Cyngor a chymorth i staff gofal ynglŷn â sut i ofalu'n effeithiol am bobl hŷn sydd ag anghenion lles ac iechyd meddyliol, gan gynnwys dementia, a pha bryd i atgyfeirio.
- Llwybrau atgyfeirio amlwg a meini prawf ar gyfer atgyfeirio.
- Bydd yr holl breswylwyr sy'n cymryd cyffuriau gwrthseicotig yn cael eu monitro a'u hasesu i weld a oes modd eu diddyfnu a bydd adolygiadau'n cael eu cynnal yn unol â chanllawiau NICE.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn rhoi disgrifiad cryno o'r cymorth iechyd meddwl a ddarperir ar hyn o bryd. Serch hynny, nid oes dim gwybodaeth am brosesau sicrwydd ansawdd nac unrhyw asesiad ynghylch a yw'r ddarpariaeth bresennol yn diwallu anghenion pobl hŷn mewn cartrefi gofal.

Nid yw'r ymateb yn cynnig dim camau rhagweithiol i'r Bwrdd Iechyd eu dilyn. Mae hyn yn rhoi'r argraff y bydd yn parhau i weithio yn yr un ffordd heb addasu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu er mwyn ymateb i ganfyddiadau'r Adolygiad.

Nid oes cyfeiriad at gyflawni canlyniadau ar gyfer unigolion ac nid oes cysylltiad amlwg yn cael ei greu ychwaith â iechyd meddwl, a lles ac ansawdd bywyd unigolion - yn hytrach, rhoddir yr argraff ei fod yn canolbwyntio mwy ar yr ymagwedd feddygol. Nid oes cyfeiriad at broses atgyfeirio.

Mae'n enwi unigolion atebol, ond nid yw'n creu dim cysylltiad amlwg â sut y bydd yr unigolion hynny'n llunio ac yn gwella'r ddarpariaeth.

Cam Gofynnol 3.5

Casgliad Cychwynnol - Annerbyniol

3.5 Mae gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi'n flynyddol ynghylch defnyddio cyffuriau gwrthseicotig mewn cartrefi gofal, a'r rheini wedi'u meincnodi ar sail canllawiau NICE a Thargedau Deallus Llywodraeth Cymru ar gyfer Dementia.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn dweud bod defnyddio cyffuriau gwrthseicotig yn cael ei feincnodi ar sail canllawiau NICE, ac mai un o'r camau y dylai'r Bwrdd Iechyd ei ddilyn yw paratoi achos busnes ar gyfer ariannu fferylllydd yn barhaus yn y tîm gofal cymhleth.

Serch hynny, nid oes ymrwymiad penodol i gyhoeddi gwybodaeth bob blwyddyn. Mae'n enwi unigolion atebol, ond nid yw'n creu cysylltiad clir â

sut y bydd yr unigolion hynny'n gweithio er mwyn cydymffurfio â'r Gofyniad i gyhoeddi'n flynyddol.

Cam Gofynnol 4.2

Casgliad Cychwynnol - Derbyniol

4.2 Bydd cytundeb ffurfiol yn cael ei ddatblygu a'i weithredu rhwng y cartref gofal a gwasanaethau gofal sylfaenol ac arbenigol yn seiliedig ar y Datganiad Hawliau. Dylai hyn gynnwys:

- Llwybrau atgyfeirio, gan gynnwys mynediad agored
- Amserau aros
- Gwybodaeth am atgyfeirio a rhyddhau
- Cyngor a gwybodaeth i gefnogi gofal parhaus y person hŷn yn y cartref
- Mynediad at wasanaethau arbenigol i bobl hŷn mewn cartrefi nyrsio yn unol â'r Canllawiau Hanfodion Gofal.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn dweud ei fod eisoes wrthi'n datblygu cytundeb ffurfiol rhwng cartrefi gofal, gofal sylfaenol a gwasanaethau arbenigol. Mae'n cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith ar lwybrau atgyfeirio a mynediad agored. Serch hynny, byddai wedi bod o fudd cael rhagor o wybodaeth ynglŷn â pha bryd a sut y caiff hyn ei wneud.

Croesewir y ffaith bod unigolion atebol wedi'u henwi a bod cyfeiriad at amserlen ar gyfer cyflawni'r Cam Gofynnol. Serch hynny, ni roddir dim gwybodaeth am sut y caiff y cynnydd ei fonitro a'i farnu o'i gymharu â'r targed hwn.

Cam Gofynnol 4.3

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

4.3 Rhoddir gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant lle bo hynny'n briodol i staff gofal er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn adnabod anghenion

iechyd pobl hŷn yn ogystal â phryd a sut i atgyfeirio.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn cydnabod natur y wybodaeth a'r hyfforddiant sy'n cael eu darparu ar gyfer staff cartrefi gofal ar hyn o bryd a'r bylchau yn y ddarpariaeth honno. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod mai agwedd ymatebol yw agwedd darparwyr cartrefi gofal ar hyn o bryd at sicrhau bod gwasanaethau iechyd ar gael. Bydd angen datblygu'r drefn eto er mwyn sicrhau ymagwedd ragweithiol at wybodaeth, cyngor a hyfforddiant - ond nid oes cynllun gweithredu clir i ddangos sut mae'r Bwrdd yn bwriadu bwrw ymlaen â hyn.

Un cam gweithredu clir a nodir yw helpu darparwyr cartrefi gofal i gael gafael ar hyfforddiant. Ond, mae'n ymddangos bod mwy o bwyslais ar gartrefi nyrsio yn hytrach nag ar sector y cartrefi gofal drwyddo draw yn y rhanbarth. Felly, ychydig o wybodaeth sydd am sut mae staff cartrefi gofal preswyl yn gallu adnabod anghenion iechyd.

Croesewir y ffaith fod unigolion atebol wedi'u henwi a bod cyfeiriad at amserlen ar gyfer y Cam Gofynnol. Serch hynny, ni roddir dim gwybodaeth am sut y caiff y cynnydd ei fonitro a'i farnu o'i gymharu â'r targed hwn.

Cam Gofynnol 4.4

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

4.4 Pan fydd pobl hŷn yn cyrraedd cartref gofal, bydd gweithiwr proffesiynol clinigol cymwysedig yn adolygu eu meddyginiaethau, a bydd adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal yn unol â'r arferion gorau a gyhoeddwyd.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn dangos ei fod yn ymwybodol o'r sefyllfa bresennol o ran adolygu meddyginiaethau ac mae'n dweud bod y rhan fwyaf o ddarparwyr cartrefi nyrsio'n trefnu i wneud hyn. Mae enghreifftiau o waith da i'w gweld ar hyn o bryd i gryfhau'r ymwybyddiaeth o bolifferylliaeth a'r arferion gorau a

gyhoeddwyd, drwy gyfrwng fferylllydd. Serch hynny, ni ddarperir dim gwybodaeth am brofiadau unigolion mewn cartrefi gofal.

Gwelir ymrwymiad i ddatblygu proses newydd i fonitro ac adolygu meddyginiaethau gyda chartrefi gofal, meddygon teulu a fferyllwyr. Serch hynny, nid yw'n glir a yw hyn yn golygu bod pob cartref gofal yn yr ardal, gan gynnwys cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio, yn sicrhau bod pob unigolyn yn cael adolygu ei feddyginiaethau.

Croesewir y ffaith bod unigolion atebol wedi'u henwi a bod cyfeiriad at amserlen ar gyfer y Cam Gofynnol. Serch hynny, ni roddir dim gwybodaeth am sut y caiff y cynnydd ei fonitro a'i farnu o'i gymharu â'r targed hwn.

Cam Gofynnol 5.6

Casgliad Cychwynnol - Derbyniol

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal lle bydd Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu risgiau parhaus ynghylch ansawdd bywyd neu'r gofal a roddir i breswylwyr a/neu'r posibilrwydd o darfu ar eu hawliau dynol.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio Rheolwyr Cartrefi Gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, i ddarparu cefnogaeth ddwys a thrawsnewidiol i wella safonau ansawdd bywyd a gofal i breswylwyr, yn ogystal ag i atal a lliniaru risgiau ym maes diogelu yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hwn hefyd ddatblygu amrywiaeth o adnoddau a deunyddiau hyfforddi i helpu cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwella'n barhaus.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol yn dangos cefnogaeth ac ymrwymiad clir i Wasanaeth Gwella Cenedlaethol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dweud mai un o'r camau y bydd gofyn iddo'i ddilyn ei hun fydd sicrhau bod staff yn cael cymorth i fod yn rhan o'i ddatblygu.

Cam Gofynnol 6.2

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau eu bod yn gweithredu ar eu sylwadau.

Dylid adrodd yn ôl yn flynyddol am sut mae'r adborth parhaus gan bobl hŷn wedi cael ei ddefnyddio i sbarduno gwella parhaus (gweler cam 6.10).

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol yn dangos bod gwaith ar y gweill yn y maes hwn, ac mae'n dangos ymrwymiad i ymestyn y gwaith hwn o gartrefi nyrsio i gartrefi gofal. Mae'n dangos hefyd ei barodrwydd i fynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu dulliau newydd er mwyn deall ansawdd bywyd.

Serch hynny, nid yw'n amlwg sut mae'r gwaith hwn sydd ar y gweill yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i sbarduno gwelliannau yn y gwasanaeth na sut mae lleisiau pobl hŷn yn ganolog i'r darparu a'r gwella.

Nid yw'r ymateb yn cyfeirio at adroddiadau blynyddol, ac nid yw ychwaith yn cyfeirio'n benodol at gydweithio â chyrrff statudol eraill.

Croesewir y ffaith fod unigolion atebol wedi'u henwi a bod cyfeiriad at amserlen ar gyfer y Cam Gofynnol. Serch hynny, ni ddywedir faint o gynnydd maent yn disgwyl ei weld gyda'r gwaith hwn erbyn y dyddiad a bennwyd.

Cam Gofynnol 6.8

Casgliad Cychwynnol - Annerbyniol

6.8 Byrddau Iechyd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol am ansawdd

bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio yn eu Datganiadau Ansawdd Blynyddol:

- defnyddio cyffuriau gwrthseicotig mewn ffordd amhriodol
- sicrhau bod cymorth ar gyfer iechyd a lles meddyliol ar gael
- nifer y cwympiadau
- mynediad at y gwasanaeth atal cwympiadau
- mynediad at y gwasanaethau ailalluogi
- cefnogaeth i gynnal y golwg a'r clyw.

Datblygu meysydd eraill sydd i'w cynnwys yn rhan o ganllawiau DAB a gyhoeddir yn flynyddol.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol yn dangos ymrwymiad i gynnwys datganiad am y data sy'n ofynnol yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol lle bydd y data hynny ar gael. Serch hynny, mae'n dweud hefyd nad oes modd casglu'r holl ddata sy'n ofynnol oherwydd nad oes dulliau ar gael i wneud hynny. Mae'n cydnabod y byddai angen buddsoddi er mwyn cyflawni'r gofyniad hwn. Ond, nid oes ymrwymiad i wneud hynny, na chynllun gweithredu i newid y sefyllfa.

Cam Gofynnol 7.3

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

7.3 Mae'r GIG yn gweithio gyda'r sector cartrefi gofal er mwyn ei ddatblygu'n rhan allweddol o'r llwybr gyrfa nyrsio, gan gynnwys darparu cefnogaeth lawn o ran datblygiad proffesiynol nyrsys a chefnogaeth gan gymheiriaid i nyrsys sy'n gweithio mewn cartrefi gofal.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol yn dangos cefnogaeth y Byrddau Iechyd i'r Gofyniad, ac mae'n dangos bod cam gweithredu ar waith i weithio gyda chartrefi gofal er mwyn gweld pa ddarpariaeth hyfforddi a datblygu proffesiynol sydd ei hangen.

Er bod ymateb blaenorol (i Gam Gofynnol 5.1) yn dweud y bydd y gwaith hwn yn bwydo i waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cenedlaethol y Cartrefi Gofal a Gweithgor y Gweithlu, ni roddir rhagor o wybodaeth am gynllun clir ar gyfer y Bwrdd Iechyd.

Nid oes cyfeiriad amlwg at y pethau hynny sy'n rhwystro'r gweithlu nyrσιο rhag mynd i mewn i gartrefi gofal.

Croesewir y ffaith bod unigolion atebol wedi'u henwi a bod cyfeiriad at amserlen ar gyfer y Cam Gofynnol. Serch hynny, ni ddywedir faint o gynnydd maent yn disgwyl ei weld gyda'r gwaith hwn erbyn y dyddiad a bennwyd.

Atodiad 1:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, cwestiynau a godwyd

Cam Gofynnol 2.4

Cwestiwn:

"Canllawiau ar yr arferion gorau - newidiadau gorfodol / adnewyddu - yn sicr dyma'r peth cywir i'w wneud, ond bydd hynny'n gostus. Pwy fydd yn talu am y gofynion hyn?"

Tybiwyd bod a wnelo'r cwestiwn hwn â chostau rhoi'r canllawiau cenedlaethol ynglŷn â'r arferion gorau ar waith yn amgylchedd y cartref gofal ac ym maes cymhorthion byw beunyddiol.

Mae'r Comisiynydd yn disgwyl i Lywodraeth Cymru arwain wrth ddatblygu canllawiau o'r fath ynglŷn â'r arferion gorau, a hynny ar y cyd â phartneriaid perthnasol lle bydd hynny'n briodol. Bwriad y Cam Gofynnol hwn yw sicrhau bod amgylchedd cartrefi gofal, yn fewnol ac yn allanol, yn hygyrch ac yn hwylus i bobl â dementia a nam ar y synhwyrau.

Mae'r Comisiynydd yn nodi eich sylwadau ynglŷn â'r costau. Barn y Comisiynydd yw, os na roddir y Cam Gofynnol hwn ar waith, y gallai hynny olygu na fydd pobl hŷn yn gallu symud yn ddiogel ac yn annibynnol o gwmpas y cartref gofal. Byddai hynny'n peryglu eu diogelwch personol. Gallent gwympo ac mae'n bosibl y byddant yn ei chael hi'n anodd cyfathrebu â'i gilydd ac â'r staff, gan eu hynysu a'u gwthio i'w cragen. Mae cost tymor hir hyn, o ran y canlyniadau i unigolion ac o ran gallu'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau canlyniadau da, yn debygol o fod yn uwch o lawer na chost buddsoddi yn yr ymyraethau cynnar a gynigiwyd.

Byddai'r Comisiynydd yn annog eich Bwrdd Iechyd i ddechrau cysylltu'n fuan â Llywodraeth Cymru, ag Awdurdodau Lleol ac â Byrddau Iechyd eraill drwy Gymru, i drafod y dewisiadau o ran gweithredu, wrth i'r canllawiau cenedlaethol ynglŷn â'r arferion gorau gael eu datblygu.